# Hyfforddiant Gweithwyr Cymorth

## Mae'r sesiynau'n addas ar gyfer:

- Gweithwyr Cymorth cyflogedig
- Unigolion sy'n chwilio am newid gyrfa i ddod yn Weithwyr Cymorth
- Unigolion di-waith sy'n chwilio am brofiad a gwybodaeth i weithio yn y sector.
- Prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan wasanaethau Cyflogadwyedd
- Cyflogwyr, sydd angen hyfforddiant ymwybyddiaeth a DPP ar gyfer staff presennol.

## Mae pob sesiwn yn para hanner diwrnod.

**Ymwybyddiaeth a throsolwg o'r sector Cefnogi a gweithio Amlasiantaethol**
Nodi'r rolau o fewn Gwaith Cymorth, archwilio'r gwahanol sefydliadau a chyfleoedd sydd ar gael. Gweithio amlasiantaethol a phwysigrwydd a manteision gweithio mewn partneriaethau.

**Gweithio unigol ac Asesiadau Risg**
Sut i wneud gwaith unigol yn ddiogel, cwblhau asesiadau risg penodol ar gyfer rôl y Gweithiwr Cymorth a pholisi'r gweithle.

**Cynllunio Cymorth a Ffiniau**
Beth yw cynllun cymorth? Pam fod y cynllun cymorth yn bwysig? Pa wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn cynllun? Pam mae ffiniau'n bwysig a pha ffiniau allwch chi eu gosod??

**Cam-drin Domestig**
Beth yw cam-drin domestig? Deall effeithiau'r cam-drin. Pam nad yw pobl bob amser yn gadael perthnasoedd Cam-drin Domestig? Pa gymorth a help sydd ar gael?

**Ceisiadau swydd cyflogadwyedd ar gyfer Gwaith Cymorth**
Beth yw'r gofynion, yr awgrymiadau a'r cynghorion ar gyfer parhau i'r cam cyfweld a dod yn Weithiwr Cymorth!



*Fel gweithiwr cymorth, mae gennych chi rôl amrywiol - does dim dau ddiwrnod yr un fath, mae'r rôl yn heriol ac yn gyffrous!*



*Mae bod yn Weithiwr Cymorth yn llawer mwy naswydd yn unig - mae'n bwysig a byddwch yn cael eich gwerthfawrogi gan y bobl rydych yn eu cefnogi a'u teuluoedd.*



*Os ydych chi'n berson brwdfrydig, gofalgar a thosturiol, gallai hyn fod yn yrfa berffaith i chi.*

# Hyfforddiant Gweithwyr Cymorth

## Adborth gan Gyfranogwyr

*Mae'n hwb mawr i'r hyder ac mae'r broses ymgeisio am swyddi'n llawer llai brawychus. Roedd yr ymagwedd anffurfiol yn help mawr.*

*Roedd y tiwtor yn llawn gwybodaeth ac yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol yn hytrach na'n bryderus gan egluro popeth i allu deall.*

*Rwy'n credu bod y cwrs hwn wedi fy helpu i wybod mai dyma'r llwybr yr wyf yn bendant am ddilyn, rydych chi wedi gwneud yn anhygoel, diolch.*

*Rwyf wirioneddol yn gwerthfawrogi'r holl ymdrech, amser a manylion a roddwyd i ni. Rydych chi wedi fy helpu i wybod yn sicr mai dyma beth rydw i eisiau gwneud gyda fy mywyd. Diolch!*

## Nododd 100% eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i gymhwyso am swydd fel Gweithiwr Cymorth!

## Dywedodd 100% y byddent yn argymell y cwrs!

*Roedd yr hyfforddiant yn llawn gwybodaeth ac fe gwrddais â llawer o bobl dymunol. Byddwn yn cynghori unrhyw un sydd eisiau mynd i mewn i'r gwasanaeth cymorth i fynychu'r cwrs hwn*

*Sesiynau cynhwysol iawn, wedi gwneud i mi deimlo'n gartrefol ac yn hyderus wrth ofyn unrhyw gwestiynau. Tiwtor sy'n agos-atoch, llawn gwybodaeth a chwrs cynhwysfawr*

*Byddwn yn sicr yn argymell yr hyfforddiant i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gyrfa fel Gweithiwr Cymorth*

*Cwrs ardderchog! Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol dros ben, ac wedi'i gwyflwyno'n dda.*


**Am ragor o fanylion, Cysylltwch â:**

**Penny Chapman** ar **07532 187253** E-bost: **pennyc@regener8cymru.co.uk**

**www.regener8cymru.co.uk**


*Dilynwch ni ar:* Regener8cymru | Rcymru | Regener8cymru


Regener8 Cymru yn Cwmni Buddiannau Cymunedol Rhif 8198202

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru Welsh Government